



**MOMA**  
MACHYNLLETH

## Gwybodaeth gefndirol i ymgeiswyr

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Tabernacl Machynlleth ym mis Mawrth 1986 yn gwmni elusennol cyfyngedig trwy warant. Yn y dyddiau cynnar, roedd y gweithgareddau wedi eu cyfyngu i hyrwyddo cyngherddau yn yr hen Gapel Wesleidd a adnewyddwyd, yn bennaf trwy gyfrwng Gŵyl Flynyddol a gychwynnodd ym 1987 ac sydd wedi ei chynnal bob blwyddyn ers hynny, Ar yr un pryd, dechreuodd yr Ymddiriedolaeth sefydlu casgliad parhaol o waith celf. Sefydlwyd craidd y casgliad trwy drosglwyddo casgliad personol bychan i Ymddiriedolaeth Tabernacl Machynlleth ym 1986. Ers hynny, derbyniwyd ychwanegiadau niferus yn rhoddion gan arlunwyr a chefnogwyr, ac mae'r casgliad bellach yn cynnwys dros 300 o weithiau gan arlunwyr o Gymru o'r 20fed a'r 21ain ganrif. Nid oes modd gwerthu'r gweithiau unwaith iddynt ddod yn rhan o'r casgliad. Dros y blynnyddoedd mae'r Ymddiriedolaeth wedi prynu a datblygu eiddo, ac mae'r safle presennol yn cynnwys Awditoriwm prysur a chyfres o orielau celf o safon uchel.

Mae MOMA Machynlleth yn elwa o fod yn rhan o weithgareddau diwylliannol drwy gydol y flwyddyn yn ogystal â'r arddangosfeydd celf gan gynnwys:

- Gŵyl Flynyddol Machynlleth sy'n dathlu diwylliant Cymreig traddodiadol law yn llaw â cherddoriaeth jazz a chlasurol gan artistiaid rhyngwladol.
- Gweithgareddau diwylliannol sy'n cael eu hyrwyddo'n annibynnol, gan gynnwys llenyddiaeth, dosbarthiadau Cymraeg ac ieithoedd eraill, dosbarthiadau celf, darlithoedd, cyfarfodydd cyhoeddus a gŵyl gomedi Machynlleth.

Derbyniwyd achrediad llawn gan MALD (Adran Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru) ym mis Ionawr 2016, ac mae rhai arddangosfeydd trawiadol wedi cael eu llwyfannu sydd wedi ennyn diddordeb Cenedlaethol a Rhyngwladol.

Mae'r Ganolfan yn parhau i ddatblygu ac ar hyn o bryd rydym yn gobeithio trawsnewid yr adeilad drws nesaf i fod yn storfa bwrsasol ar gyfer y casgliad parhaol, ac er mwyn darparu gofod swyddfa ychwanegol.

## Y Datblygiadau Nesaf

Rydym yn wynebu cyfnod cyffrous ac allweddol yn ein datblygiad. Rydym yn endid llwyddiannus gydag asedau gwerth cyfanswm o £2.5m ar ffurf orielau sydd wedi ennill gwobrau ynghyd ag Awditoriwm, ac mae gennym gynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu gofod storio ar gyfer ein casgliad cynyddol o gelf fodern.

Mae llwyddiant MOMA hyd yn hyn wedi dibynnu'n helaeth ar gyfraniad gwirfoddol difflino ei sefydlwyr - y teulu Lambert. Mae marwolaeth diweddar aelod hŷn o'r teulu wedi amlygu gwerth y cyfraniad hwnnw a dibyniaeth y sefydliad ar eu hymdrechion. Mae'r genhedlaeth nesaf yn llwyr ymroddedig i ddiogelu'r etifeddiaeth ac maent yn aelodau gweithgar o'r Bwrdd. Oherwydd bod ganddynt fusnesau eraill i'w rhedeg, nid ydynt mewn sefyllfa i ymgymryd â rôl fwy ymarferol yn y gwaith o redeg MOMA Machynlleth o ddydd i ddydd, ac felly mae'r Bwrdd wedi cytuno bod angen model busnes a model staffio gwahanol er mwyn diogelu'r sefydliad arbennig hwn sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan arlunwyr Cymru a llu o gefnogwyr.

Mae'r Bwrdd wedi cynnal dadansoddiad trwyadl o anghenion presennol y busnes yn ogystal ag anghenion y dyfodol, ac wedi cytuno mai'r brif flaenoriaeth yw penodi Rheolwr Gyfarwyddwr er mwyn sefydlu a datblygu model busnes cynaliadwy. Mae'r Bwrdd yn ystyried hyn yn ddatblygiad cyffrous a fydd yn adeiladu ar yr etifeddiaeth ac yn datblygu cyfraniad MOMA Machynlleth i'r celfyddydau yng Nghymru.



**MOMA**  
MACHYNLLETH

## Y Camau Nesaf

Mae'r sylfaenwyr wedi creu sylfaen gadarn ar gyfer llwyddiant parhaus yr Ymddiriedolaeth, gan sicrhau cyfraniadau elusennol a rhai ffynonellau ariannu sefydlog. Wrth edrych tua'r dyfodol, ac wrth i'r sylfaenwyr fabwysiadu rôl fwy arweiniol, mae Bwrdd Cyfarwyddwyr yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr angen i ddatblygu'r hyn sy'n cael ei gynnig a manteisio ar ffynonellau ariannu ychwanegol megis grantiau, rhoddion elusennol a gweithgareddau masnachol er mwyn diogelu'r dyfodol tymor hir.

Rydym yn chwilio am rywun sydd â'r weledigaeth i werthfawrogi'r cyfleoedd mae'r rôl unigryw hon yn eu cynnig, a bydd deiliad y swydd yn derbyn cefnogaeth lawn y staff, y Bwrdd a'r gwirfoddolwyr.

Anogir darpar ymgeiswyr i edrych ar y wefan, holi cwestiynau, ac ymweld â'r safle os nad ydynt wedi gwneud hynny'n barod.

Ymholiadau e-bost: [eirlys@moma.machynlleth.org.uk](mailto:eirlys@moma.machynlleth.org.uk) (Eirlys Pugh)

Sgwrs Anffurfiol: 07779 306816 - Alun Jones (Cadeirydd)

Ffurflenni Cais ar y wefan: [moma.machynlleth.org.uk](http://moma.machynlleth.org.uk)

**Y Dyddiad Cau ar gyfer ceisiadau: 18 Chwefror 2019**